


Cyfres Crefyddau'r Byd Heddiw

# Archwilio Islam

Tania ap Siôn

Darluniwyd gan

Phillip Vernon



Cyfres Crefyddau'r Byd Heddiw

# Archwilio Islam

Tania ap Siôn


Darluniwyd gan Phillip Vernon



**Bear Lands Publishing**

Yn y Gyfres Crefyddau'r Byd Heddiw, mae Rhys a Sara'n dysgu am brif grefyddau'r byd yn eu gwlad eu hunain. Y saith stori yn y gyfres yw:

- Archwilio Islam
  - Archwilio Iddewiaeth
  - Archwilio'r Eglwys y Plwyf
- Archwilio'r Eglwys Uniongred
  - Archwilio Hindwâeth
  - Archwilio Bwdhaeth
  - Archwilio Sikhiaeth



Cyhoeddwyd gyntaf 2008 gan y Ganolfan Genedlaethol  
Addysg Grefyddol,  
Prifysgol Bangor  
(noddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru).

Ail argraffiad (ar-lein) 2019 gan  
Bear Lands Publishing,  
Canolfan y Santes Fair,  
Llys Onnen, Abergwyngregyn,  
Gwynedd, LL33 0LD, Cymru.

*Cyfres Crefyddau'r Byd Heddiw*

## **Archwilio Islam**

**Pwy yw eich ffrindiau? Ydych chi'n gwybod popeth amdanyn nhw? Ydyn nhw'n gwybod popeth amdanoch chi?**

Stori yw hon am ffrindiau sydd ddim yn gwybod popeth am ei gilydd. Ond maen nhw'n dechrau dysgu am rai pethau mae eu ffrindiau'n eu gwneud, a pham maen nhw'n eu gwneud. Darllenwch eu stori ac efallai y dysgwch chi rywbeth newydd hefyd!





# I Ymweld â mosg

Daeth Rhys a Sara yn ffrindiau â Rashid a Fatima yn fuan wedi iddyn nhw ddechrau yn eu hysgol newydd, flwyddyn yn ôl. Ar y dechrau, dim ond dau beth yr oedd Rhys a Sara yn ei wybod am Rashid a Fatima. Roedd eu tad yn gweithio yn yr ysbyty lleol, ac roedden nhw'n Fwslimiaid.


Ambell ddiwrnod fe fyddai Rashid a Fatima yn rhedeg o'r ysgol am ragor o wersi mewn adeilad o'r enw mosg.

'Mae pob Mwslim yn perthyn i un teulu anferth,' meddai Rashid wrth ei ffrindiau. 'Mosg yw'r lle y bydd rhannau o'n teulu'n cwrdd ar wahân.'

Mae Mwslimiaid yn mynd i'w mosg i addoli Allah gyda'i gilydd, neu i ddysgu sut i fod yn Fwslimiaid da, neu er mwyn bod gyda'u ffrindiau sy'n Fwslimiaid. Mae Rashid a Fatima yn mwynhau mynd yno.

Un dydd Mercher, pan ganodd cloch yr ysgol ar ddiwedd y pŵn, roedd Rhys a Sara yn gynhyrfus iawn. Roedd Rashid a Fatima wedi eu gwahodd i'w hysgol fosg.

'Madrassah yw'r enw cywir am yr ysgol fosg,' meddai Fatima.



Roedd Rhys a Sara yn adnabod y mosg ar unwaith. Roedd tŵr uchel i'r adeilad, a chromen hardd gyda chilgant fel lleuad ar ei phen.

'Yn union fel mae'r lleuad a'r sêr yn dangos y llwybr cywir i ni yn y nos, mae Allah yn dangos y ffordd gywir o fyw i ni,' meddai Fatima.

Gwthiodd Rashid y drws trwm a mynd i mewn.

'Dewch i'r mosg, ac fe ddangoswn ni i chi sut mae Allah yn gwneud hyn!' meddai wrth ei ffrindiau.



Tynnodd Rashid a Fatima eu hesgidiau, a'u gosod ar resel lle'r oedd esgidiau o bob lliw a maint. Gwnaeth Rhys a Sara yr un fath.

'Ydi dy draed di'n lân, Rhys?' gofynnodd Sara.

'Peidiwch â phoeni,' chwarddodd Rashid. 'Rydyn ni i gyd yn mynd i ymolchi nawr beth bynnag.'

'Rydyn ni'n galw hyn yn wudu,' meddai Fatima, gan ddweud y gair yn araf a chllir.

Aeth y bechgyn a'r merched i ystafelloedd ymolchi ar wahân. Dyma nhw'n golchi eu breichiau, eu traed, eu hwynebau a'u pennau.

Rhoddodd Fatima sgarff i Sara a rhoddodd Rashid gap i Rhys.

'Rydyn ni'n lân ac wedi gorchuddio'n pennau,' meddai Rashid. 'Nawr rydyn ni'n barod i weld a gwneud pethau arbennig.'





Roedd y peth arbennig cyntaf yn yr ystafell ddysgu. Yma roedd y plant yn dysgu darllen llyfr wedi'i ysgrifennu yn yr iaith Arabeg.

'Dyma anrheg bwysicaf Allah i ni,' sibrydodd Rashid. 'Yn hwn mae Allah yn dweud wrthym ni sut i ymddwyn yn iawn. Mae Allah yn gwybod beth sydd orau i ni, ac mae Allah yn gwybod beth fydd yn ein gwneud yn hapus. Dyna pam rydyn ni eisiau dysgu darllen y llyfr yma.'

Cytunodd Fatima a dweud, 'Y Qur'an yw enw'r llyfr, sy'n golygu rhywbeth i'w ddarllen yn uchel, nid yn ddistaw wrthy ch chi'ch hun. Dyna pam y mae hi braidd yn swllyd yma.'

Roedd Rhys a Sara wedi rhyfeddu. Rhaid bod y Qur'an yn llyfr arbennig iawn i'w ffrindiau os oedden nhw'n gwneud cymaint o ymdrech i ddysgu ei ddarllen.



Roedd yr ail beth arbennig yn y neuadd weddio fawr. Yma, roedd rhesi o ddynion a bechgyn yn gweddio yn Arabeg ac yn gwneud yr un symudiadau. Roedden nhw'n sefyll, yn ymgrymu, penlinio, ac yn rhoi eu talcen ar y llawr.

'Maen nhw'n gweddio,' meddai Fatima. 'Maen nhw'n moli mawredd Allah. Rydyn ni'n galw hyn yn Salah. Yn y Qur'an mae Allah yn gofyn i ni weddio bum gwaith y dydd ar lawr glân. Rhaid i ni wynebu Makkah, y ddinas sanctaidd yn Saudi Arabia.'

Dysgodd y ddau beth arbennig yma lawer i Rhys a Sara am eu ffrindiau. Mae Rashid a Fatima yn credu bod Allah, yn y Qur'an, yn dangos iddyn nhw y ffordd iawn o fyw. Ond mae hynny'n anodd weithiau. Felly mae Rashid a Fatima yn credu bod Allah wedi rhoi gweddi iddyn nhw i'w helpu.





## 2 Dathlu Eid-ul-Fitr

Mae Rhys a Sara wedi bod wrthi'n gwneud cerdyn i'w ffrindiau, Rashid a Fatima. Roedd Rashid a Fatima yn dathlu gŵyl o'r enw Eid-ul-Fitr. Tynnodd Rhys lun mosg mawr gyda nifer o gromennau a thyllau. Ysgrifennodd Sara 'Gŵyl hapus!' yn Gymraeg ac yn Arabeg, gan ofalu rhoi'r llinellau a'r dotiau yn y lle iawn. Cymerodd hyn amser, ond roedden nhw'n falch o'u gwaith.

Erbyn iddyn nhw gyrraedd cartref Rashid a Fatima, roedd y teulu wedi cyrraedd adref o'r gwasanaeth Eid arbennig yn y mosg. Gwylodd Rhys a Sara bawb yn cyfnewid cardiau ac anrhegion. Roedd yno deidiau a neiniau, rhieni, meibion, merched, ewythrod, modrybedd, neiaint, nithoedd, cefndryd a chyfnitherod, wyrion ac wyresau. Roedd pawb yn smart yn eu dillad gorau. Roedd pawb yn hapus ac yn mwynhau bod gyda'i gilydd.

Cyflwynodd Rhys a Sara eu cerdyn yn falch i Rashid a Fatima.

'Mae hwn yn wych,' meddai Rashid, gan edrych arno'n fanwl. 'Mae'r cerdyn yn agor y ffordd iawn hefyd! Dewch i gael cinio Eid gyda ni!'



Dyma'r cinio canol dydd cyntaf i deulu Rashid a Fatima ei fwyta gyda'i gilydd ers mis.

'Mae hynny'n ddau ddeg naw diwrnod!' meddai Fatima. 'Mae llawer o Fwslimiaid heb fwyta nac yfed rhwng y wawr a machlud haul ers dau ddeg naw o ddyddiau. Ymptydio yw hyn. Mae Mwslimiaid yn galw'r ymptyd yma'n Sawn, ac mae'n digwydd yn ystod ein mis Ramadan. Heddiw rydyn ni'n dathlu ac yn diolch i Allah am bopeth rydyn ni wedi'i ddysgu yn ystod yr ymptyd. Dyna beth yw ystyr Eid-ul-Fitr.'

Doedd Rhys a Sara ddim yn deall. Sut rydych chi'n dysgu wrth beidio bwyta ac yfed? Beth yw pwrpas bod yn newynog a sychedig os nad oes rhaid i chi? Meddyliodd Rashid yn ofalus cyn ceisio egluro.



‘Yn ein llyfr, y Qur’an, mae Allah yn dweud wrthym ni am ymprydio,’ eglurodd Rashid. ‘Rydyn ni bob amser yn ceisio gwneud beth mae Allah yn ei ddweud. Mae Allah yn gwybod beth sydd orau i ni.’

Meddyliodd Rashid eto am y miliynau o Fwslimiaid trwy’r byd i gyd yn ymprydio yr un pryd. Meddyliodd pa mor anodd oedd ymprydio. Meddyliodd am deimlo’n newynog, sychedig, a blinedig.

Dywedodd Rashid, ‘Mae Allah yn gofyn i ni ymprydio er mwyn i ni gofio mor lwcus ydyn ni i gael bwyd a dŵr. Dydi pawb ddim mor lwcus. Bob blwyddyn, yn ystod Ramadan, mae pob Mwslim yn dysgu sut beth yw bod yn newynog a sychedig. Felly, fe fyddwn ni eisiau helpu pobl eraill. Dyna pam rydyn ni’n rhoi arian i bobl dlawd yn ystod Ramadan.’



Doedd pawb ddim wedi bod yn ymrydio. Roedd modryb Rashid a Fatima yn disgwyl babi, felly doedd hi ddim yn ymrydio. Roedd eu nain wedi bod yn sâl, ac roedd eu cefnder a'u cyfnither fach yn rhy ifanc. Doedd dim rhaid i Rashid a Fatima ddechrau ymrydio am rai blynnyddoedd eto, ond roedden nhw wedi rhoi cynnig arni am rai dyddiau er mwyn cael y profiad.

'Yn ystod yr ymryd, rydyn ni'n ceisio peidio dweud na gwneud dim sy'n ddrwg i ni'n hunain neu i rywun arall,' meddai Fatima. 'Felly rydyn ni'n ceisio peidio bod yn ddig, na ffraeo, na dweud celwyddau.'

Edrychodd Rhys a Sara ar ei gilydd a chochi. Roedden nhw wedi bod yn ffraeo ynghylch pa lun i'w wneud ar eu cerdyn Eid. Bu bron iddyn nhw beidio gwneud y cerdyn oherwydd y ffrae honno.






Dyweddodd taid Rashid a Fatima stori wrthyn nhw am Noson y Grym. Pan siaradai ef, roedd pawb yn gwrando. Roedd pawb yn ei barchu. Y seithfed noson ar hugain o Ramadan yw Noson y Grym. Mewn ogof, ar y noson honno, yn y flwyddyn 610 (Cyfnod Cyffredin), rhoddodd Allah ran gyntaf y Qur'an i ddyn o'r enw Muhammad. Dangosodd taid lun yr ogof ar fynydd Hira iddyn nhw. Roedden nhw'n gallu gweld dinas Makkah ar y tir gwastad yn y llun hefyd.

'Dyna pam rydw i'n ceisio darllen y Qur'an i gyd yn ystod Ramadan,' meddai taid.

Roedd Rhys a Sara yn deall nawr pam roedd eu ffrindiau'n datlu Eid-ul-Fitr. Mae Rashid a Fatima yn credu bod Allah, yn y Qur'an, yn gofyn iddyn nhw ymprydio. Maen nhw'n credu bod hyn yn eu dysgu sut i fod yn Fwslimiaid gwell. Felly, roedd Rashid a Fatima yn diolch i Allah am bopeth roedden nhw wedi'i ddysgu yn ystod Ramadan.







- 1
- 2
- 3
- 4
- 5

### 3 Deall y Qur'an a Muhammad

Cerddodd Rhys a Sara i mewn i neuadd yr ysgol gyda'r plant eraill ac eistedd ar y llawr. Roedd rhai yn sibrwd yn gynhyrfus wrth i'r ysgol gyfan ddisgwyl i'r pennaeth newydd ddod i'r golwg.

Cyflwynodd y pennaeth newydd ei hun fel Mrs Jones. Dywedodd yr hoffai i'r ysgol fod fel teulu mawr hapus. I fod yn deulu mawr hapus, roedd yn rhaid i bawb geisio cadw rheolau'r ysgol. Fe wnaeth hi atgoffa'r plant beth oedd eu pum rheol.

Rheol 1 – Bod yn garedig wrth bawb ac yn gwrtais.

Rheol 2 – Ymdrechu'ch gorau glas bob amser.

Rheol 3 – Gofalu am eich pethau eich hun a phethau pobl eraill.

Rheol 4 – Cadw popeth mewn trefn ac yn ddiogel.

Rheol 5 – Gwrando ar eich athrawon.

Dywedodd Mrs Jones fod yr athrawon yno i'w helpu i ddeall y rheolau a'u cadw. Felly, roedd hi'n bwysig gwrrando ar yr athrawon, a gwneud beth maen nhw'n ddweud.

Ar ôl yr ysgol, cerddodd Rhys a Sara adref gyda'u ffrindiau, Rashid a Fatima. Roedden nhw i gyd yn cytuno eu bod yn hoffi'r pennaeth newydd ac y bydden nhw'n ceisio'u gorau i gadw rheolau'r ysgol.



‘Mae gennym ninnau, fel Mwslimiaid, reolau i’w cadw hefyd,’ meddai Fatima. ‘Mae Allah wedi eu rhoi nhw i ni yn ein llyfr sanctaidd, y Qur’an. Mae Allah eisiau i bob Mwslim fyw gyda’i gilydd fel teulu mawr, hapus. Dyna beth mae Mrs Jones eisiau yn yr ysgol hefyd.’

‘Ein rheol bwysicaf ni yw gwneud y Pum Piler,’ meddai Rashid. Dywedodd wrth Rhys a Sara beth oedd y Pum Piler.



Piler 1 – Credu mewn un Duw, sef Allah.

Piler 2 – Gweddïo ar Allah bum gwaith y dydd.

Piler 3 – Helpu pobl sy’n methu helpu eu hunain.

Piler 4 – Ymprydio yn ystod mis Ramadan.

Piler 5 – Mynd ar daith arbennig i ddinas Makkah, o leiaf unwaith.



Yn nhŷ Rashid a Fatima, gofynnodd Rhys a Sara am gael gweld copi o'u Qur'an. Roedd yn cael ei gadw ar silff uchel. Estynnodd Fatima'r llyfr yn ofalus a thynnu'r defnydd oedd yn ei orchuddio.

'Mae pob gair sydd yn y llyfr yma'n dod oddi wrth Allah,' meddai Fatima. 'Dyna pam rydyn ni'n gorfod ei drin mewn ffordd arbennig. Fe fydda i'n ymolchi bob tro cyn ei gyffwrdd, ac yn gorchuddio fy mhen hefyd.'

Agorodd Fatima stand arbennig a rhoi'r llyfr arni.

'Dyma gadair, neu orsedd, i'r Qur'an eistedd arni. Rhaid cadw'r Qur'an yn lân ac oddi ar y llawr,' eglurodd Fatima.

Syllodd Rhys a Sara mewn rhyfeddod ar y Qur'an. Dim ond os yw rhywbeth yn golygu llawer iawn i chi rydych chi'n ei drin mor ofalus.



‘Ydych chi’n credu bod holl reolau Allah yn y llyfr yma?’ holodd Rhys.

‘Ydyn,’ meddai Rashid. ‘Ond dydyn nhw ddim mor hawdd â hynny. Mae rhai rheolau’n anodd eu deall, felly rhaid i rywun eu hegluro i ni. Fe wnaeth dyn o’r enw Muhammad hynny.’

Estynnodd Rashid lyfr am Muhammad a’i ddangos i’w ffrindiau.

‘Cafodd Muhammad ei eni yn Saudi Arabia yn y flwyddyn 570 (Cyfnod Cyffredin). Rhoddodd Allah swydd arbennig iddo, sef bod yn un o’i negeswyr. Fe ddysgodd Allah beth oedd yn y Qur’an i Muhammad, ac fe ddysgodd Muhammad beth oedd yn y Qur’an i’r bobl oedd o’i gwmpas. Roedd Muhammad yn deall y Qur’an. Roedd Muhammad yn byw fel Mwslim perffaith,’ meddai Rashid.



‘Yn y llyfr yma mae storïau am fywyd Muhammad. Mae’r storïau’n ein helpu i ddeall rheolau Allah yn y Qur’an,’ meddai Fatima, gan bwyntio at y llyfr am Muhammad.

‘Oes yna luniau o Muhammad yn y llyfr?’ holodd Sara, gan edrych trwy’r tudalennau. ‘Fe hoffwn i wybod sut un oedd Muhammad.’

Ysgydwodd Fatima ei phen.

‘Na,’ meddai. ‘Dydyn ni ddim yn cael tynnu llun na gwneud modelau o bobl nac anifeiliaid. Fe allen ni eu hoffi nhw gymaint, ac anghofio am Allah.’

Y pnawn hwnnw, dysgodd Rhys a Sara ragor am eu ffrindiau. Mae Rashid a Fatima yn ceisio dilyn rheolau Allah yn y Qur’an. Mae’r rheolau yma’n helpu Mwslimiaid i fyw gyda’i gilydd fel teulu mawr, hapus. Pan fydd Rashid a Fatima yn methu deall y rheolau yma, maen nhw’n gallu darllen storïau am Muhammad i’w helpu.





## 4 Gofalu am bobl eraill a'r byd

Daeth siarc anferth i'r golwg o'r tu ôl i'r creigiau a nofio'n araf uwchben y plant. Daliodd Rhys a Sara eu hanadl. Roedden nhw'n teimlo'n union fel pe baen nhw ar waelod y môr. Roedd hyn fel bod mewn byd arall.

Ymweld ag acwariwm yr oedd Rhys a Sara, gyda'u ffrindiau, Rashid a Fatima. Roedden nhw wedi bod yn syllu i'r tanciau llawn dŵr trwy'r pnawn. Roedd cymaint o wahanol greaduriaid a phlanhigion o bob cwr o'r byd i'w gweld yno. Roedd rhai yn byw mewn dŵr cynnes, eraill mewn dŵr oer. Roedd rhai'n byw yn ddwfn yn y môr, eraill yn byw yn nes i wyneb y dŵr. Ond ble bynnag roedden nhw'n byw, roedden nhw angen ei gilydd er mwyn cadw'n fyw.

Fe glywson nhw ddyn ifanc yn sôn am y niwed mae pobl yn ei achosi i nentydd, afonydd, a moroedd y byd. Llygredd sy'n achosi llawer o'r niwed yma.

Roedd y plant wedi mwynhau eu hymweliad. Roedden nhw'n edmygu harddwch a grym y byd o'u cwmpas. Ond roedden nhw'n teimlo'n drist hefyd. Roedden nhw'n cofio ei bod hi'n hawdd iawn dinistrio'r byd os yw pobl ddim yn meddwl nac yn gofalu amdano.





Roedd hi'n ddiwrnod poeth, ac fe eisteddodd y pedwar ffrind dan goeden dderwen fawr yn y parc. Fe wnaethon nhw rannu potelaid o sudd oren a ffrwythau. Roedden nhw'n dal i sôn am yr acwariwm.

'Mae pob Mwslim i fod i ofalu am fyd natur,' meddai Rashid. Edrychodd o gwmpas y parc. 'Mae eistedd yma'n fy atgoffa i o stori Fwslimaidd y byddai fy mam yn ei darllen i mi. Stori yw hi sy'n sôn am ofalu am anifeiliaid.'


Gwrandawodd Rhys, Sara, a Fatima ar Rashid yn dweud y stori.

Roedd Muhammad yn cerdded mewn gardd ym Madinah. Roedd hi'n ddiwrnod poeth iawn, a'r bobl a'r anifeiliaid yn teimlo'r gwres. Gwelodd ddyn yn cysgodi o dan goeden.



Clywodd Muhammad gamel yn ei ymyl yn gwneud sŵn mawr. Aeth ato a'i anwesu'n dyner. Roedd y camel yn crio. Roedd yn denau iawn. Gweithiai'n galed, ond doedd y camel ddim yn cael digon o fwyd a dŵr.

Y dyn oedd yn eistedd o dan y goeden oedd perchennog y camel. Dywedodd Muhammad wrtho mai Allah oedd wedi creu ei gamel, a'i fod yn trin y camel yn greulon iawn. Roedd hi'n ddyletswydd arno i ofalu am y camel. Pe byddai'r camel yn cael digon o fwyd a dŵr, fe fyddai'n gweithio'n well. Roedd yn ddrwg iawn gan y dyn, ac roedd arno gywilydd. Gofalodd am ei gamel yn iawn bob amser wedi hynny. Ac roedd Muhammad yn dweud y gwir! Roedd y camel yn gweithio'n well o lawer wedyn.



‘Mae’n ddyletswydd ar bob Mwslim i ofalu am ei gilydd hefyd,’ meddai Fatima. ‘Mewn byd perffaith, fe fyddai digon i’w fwyta ac yfed gan bawb, a digon o arian i brynu dillad. Mae’n dweud yn y Qur’an y dylai Mwslimiaid helpu’r rhai sydd mewn angen. Felly rydyn ni’n rhoi arian, sy’n cael ei alw’n Zakah.’

Roedd teulu Rashid a Fatima yn rhoi anrhegion a bwyd i bobl dlawd ar adegau eraill hefyd. Roedden nhw’n rhoi ar adegau arbennig, fel adeg geni babi bach neu adeg gwyliau. Roedden nhw’n ceisio rhoi pryd bynnag roedden nhw’n gallu.


Ar eu ffordd adref aeth y plant i’r llyfrgell gyhoeddus. Roedd Fatima eisiau dangos gwefannau diddorol i Rhys a Sara ar gyfrifiadur y llyfrgell.



Fe helpodd y llyfrgellydd nhw i chwilio am asiantaethau cymorth Mwslimaidd. Eglurodd Fatima fod Mwslimiaid yn rhoi arian i'r asiantaethau yma. Yna roedd yr asiantaethau yn gofalu bod pobl o bob cwr o'r byd yn cael yr help roedden nhw'i angen. Roedd yr asiantaethau yn helpu i ddarparu dŵr glân, addysg, a gofal iechyd. Roedden nhw hefyd yn helpu gydag achosion brys mewn adeg o ryfel neu drychineb naturiol, fel daeargryn neu newyn.

Nawr roedd Rhys a Sara yn gwybod tipyn bach mwy am eu ffrindiau. Mae Rashid a Fatima yn credu bod Allah wedi creu'r byd a phopeth sydd ynddo. Roedd wedi ei gynllunio'n berffaith ac mae pwrpas i bopeth yma. Mae pob Mwslim i fod i ofalu am greadigaeth Allah. Mae Rashid a Fatima yn credu hefyd fod Allah eisiau iddyn nhw ofalu am ei gilydd, ac mae'n dweud wrthyn nhw, yn y Qur'an, sut i wneud hynny.





## 5 Dysgu am halal ac haram

Roedd Rhys a Sara wedi edrych ymlaen ar hyd yr wythnos at fore Sadwrn. Roedden nhw wedi trefnu i fynd i siopa gyda'u ffrindiau, Rashid a Fatima. Fel arfer, doedden nhw ddim yn hoffi siopa, ond roedd y siopa yma'n mynd i fod yn wahanol. Roedd Rashid a Fatima wedi addo mynd â nhw i siop arbennig iawn, oedd yn boblogaidd gan Fwslimiaid.

'Mae ein mam ni wedi rhoi rhestr siopa ac arian i ni. Mae hi eisiau i ni brynu bwyd i'r teulu dros y penwythnos,' meddai Fatima, gan deimlo'n falch iawn o'i chyfrifoldeb.

Cyn gynted ag yr aethon nhw i mewn i'r siop, cafodd eu synhwyrâu eu taro â phethau newydd roedden nhw'n eu gweld, eu clywed a'u harogli. Fe welson nhw bob math o fwydydd o nifer o wahanol wledydd. Os nad oedd Rhys a Sara yn gwybod beth oedd rhywbeth, fe eglurai Rashid a Fatima iddyn nhw.

'Yn India y mae gwreiddiau llawer o'r teuluoedd Mwslimaidd sy'n byw yn yr ardal yma. Mae'r siop yma'n gwerthu llawer o'r bwydydd traddodiadol sy'n cael eu bwyta yn India,' meddai Rashid, fel roedden nhw'n archwilio'r holl hadau, y codennau, a'r sbeisiau oedd yno. 'Ond mae rhai teuluoedd Mwslimaidd â'u gwreiddiau mewn gwledydd eraill hefyd, yn cynnwys ein gwlad ni. Fe fydd y Mwslimiaid hynny'n bwyta mathau eraill o fwydydd.'

# HALAL FOOD COMPANY



‘Ydych chi’n gwybod beth sy’n gwneud y siop yma’n arbennig?’ gofynnodd Fatima.

Tynnodd baced oddi ar y silff agosaf ati a darllen y label arno, yn uchel.



Edrychodd Rhys a Sara ar rai eraill o’r pacedi, y tuniau a’r jariau. Roedd label halal ar bob un.

‘Dim ond bwyd sy’n halal y mae Mwslimiaid yn cael ei fwyta, ac ystyr hyn yw ei fod yn cael ei ganiatáu,’ eglurodd Fatima. ‘Mae pob bwyd arall yn cael ei alw’n haram, ac ystyr hynny yw rhywbeth sydd ddim yn cael ei ganiatáu. Mae’r siop yma’n arbennig am mai’r unig fwydydd sydd ar werth yma yw’r bwydydd halal.’



‘Sut rydych chi’n gwybod pa fwydydd sy’n cael eu caniatáu a pha rai sydd ddim yn cael eu caniatáu?’ holodd Rhys, yn llawn diddordeb.

‘Mae Allah wedi rhoi rheolau yn y Qur’an i ni, am ein bwyd,’ atebodd Rashid. ‘Os ydyn ni’n bwyta cig anifail, rhaid i’r anifail hwnnw fod wedi cael ei ladd yn y ffordd Fwslimaidd. Rhaid i ni fod yn ofalus am fod bwyd o anifail ynghudd mewn llawer o fwydydd. Chawn ni ddim bwyta bacwn, ham na chig mochyn o gwbl.’

Meddylodd Rhys a Sara fod siop fwydydd halal yn syniad da. Dychmygwch faint o amser fyddai’n ei gymryd i siopa pe byddai’n rhaid i chi ddarllen pob label i weld beth yw’r cynhwysion!





‘Ond nid bwydydd yn unig sy’n halal a haram,’ meddai Rashid. ‘Mae popeth rydyn ni’n ei wneud naill ai’n cael ei ganiatáu gan Allah, neu ddim yn cael ei ganiatáu gan Allah. Mae popeth naill ai’n dda, neu ddim yn dda, i ni. Edrychwch ar ein dillad!’

Gwelai Rhys a Sara fod dillad Fatima a Rashid yn gorchuddio’r rhan fwyaf o’u cyrff.

‘Mae’n dweud yn y Qur’an fod yn rhaid i ni wisgo’n weddus,’ meddai Fatima. ‘Mae Mwslimiaid mewn gwahanol rannau o’r byd yn ystyried hyn mewn gwahanol ffyrdd. Fe fydd sawl merch Fwslimaidd yn gwisgo fel rydw i’n gwisgo, ond mae rhai’n gorchuddio eu hunain o’u corun i’w sawdl. Ambell dro, fydd rhai merched ddim yn gwisgo penwisg o gwbl, ar wahân i’r adeg y byddan nhw’n gweddio neu’n darllen y Qur’an.’



Yn y siop, fe ddysgodd Rhys a Sara rywbeth newydd a phwysig iawn. Dydi pob Mwslim ddim yn byw yn hollol yr un fath. Mae'r union ffordd y mae Mwslimiaid yn byw yn dibynnu ar o ble y daw eu teuluoedd. Mae'n dibynnu hefyd ar sut maen nhw'n deall y rheolau yn y Qur'an.

Ond mae llawer o Fwslimiaid o wahanol wledydd y byd yn credu eu bod yn perthyn i'r un teulu. Mae hyn oherwydd eu bod yn rhannu'r un gred. Does dim ond un Duw, o'r enw Allah, sy'n dangos iddyn nhw, yn y Qur'an, beth yw'r ffordd orau i fyw.

Fel roedd Rhys a Sara yn cerdded adref, roedd y ddau'n cytuno eu bod eisiau rhannu rhai o'r pethau arbennig oedd ganddyn nhw gyda Rashid a Fatima. Beth yw'r pethau arbennig hynny? Stori arall yw honno.



Mae gan Rhys a Sara ddau ffrind ysgol sy'n Fwslimiaid. Eu henwau yw Rashid a Fatima. Weithiau, ar ôl yr ysgol, bydd Rashid a Fatima yn mynd i gael gwersi arbennig yn eu mosg lleol. Un pwn Mercher, mae Rhys a Sara'n cael gwahoddiad i fynd gyda nhw i'r mosg.

Wrth i Rhys a Sara gamu trwy ddrws y mosg, mae eu hantur yn dechrau. Beth sydd mor arbennig am lyfr sydd wedi'i ysgrifennu mewn Arabeg, ac am y dyn o'r enw Muhammad? Wrth i Rhys a Sara ddysgu rhagor am eu ffrindiau, maen nhw'n dechrau deall.

